

**Community
Housing
Cymru
Events**



Cynhadledd Cyllid 2019

Gwesty Metropole, Llandrindod
11/12 Gorffennaf 2019

Croeso i Gynhadledd Cyllid 2019 CHC. Mae'r gynhadledd hon wedi hen ennill ei phlwyf fel digwyddiad hanfodol ar gyfer gweithwyr proffesiynol ym maes cyllid, aelodau bwrdd ac arweinwyr ar draws y sector tai cymdeithasol. Rydym yn falch i fod yn ôl yn Llandrindod eleni gyda digwyddiad sy'n anelu i hysbysu ac ysbrydoli gan annog rhwydweithio neu rannu arfer gorau gyda chydweithwyr proffesiynol yn y sector.

Cafodd y rhaglen ei pharatoi yn dilyn adborth gan aelodau CHC ar bynciau y dymunwch ddysgu mwy amdanynt sy'n ychwanegu gwerth i chi, eich sefydliad a rhanddeiliaid. Bydd siaradwyr a gweithdai yn codi cwr y llen ar lawer o feysydd pwnc yn cynnwys yr amgylchedd gwleidyddol ac economaidd, risg, rheoleiddio a llywodraethiant, a'r camau nesaf yn dilyn yr Adolygiad o Dai Fforddiadwy.

Edrychwn ymlaen at eich croesawu dros y ddeuddydd i'r hyn sy'n argoeli bod yn ddigwyddiad cyffrous fydd yn procio'r meddwl.

Clarissa Corbisiero-Peters
Cyfarwyddydd Polisi/Dirprwy Brif Weithredydd

Steve Evans
Cyfarwyddydd Cynorthwyol,
Cyllid a TGCh

Noddwyd cinio'r gynhadledd drwy garedigrwydd Banc Lloyds:



Cynhadledd Cyllid 2019

Gwesty Metropole, Llandrindod, Powys

11/12 Gorffennaf 2019

9.00am	Cofrestru, Llundain a Gweld yr Arddangosfa
9.45 am	Croeso a Chyflwyniadau
	<i>Cadeirydd y Gynhadledd -</i>
	<i>Ystafell - Powys</i>
9.55am	
	<i>Trevor Williams</i>
	<i>Ystafell - Powys</i>
	<p>Mae Trevor Williams yn gyn Brif Economegydd Bancio Masnachol Banc Lloyds, swydd y bu ynnddi am ymhell dros 10 mlynedd. Yn ystod y cyfnod hwn, mae wedi sefydlu tîm o economegwyr uchel eu parch a enillodd wobrau yn dadansoddi data byd-eang a domestig i gleientiaid yn amrywio o gorfforaethau mawr a busnesau bach a chanolig gyda dirnadaeth bwrpasol.</p> <p>Clywch ei farn ar y darlun economaidd ar draws y Deyrnas Unedig a bydd yn ceisio dadansoddi beth mae gadael Ewrop yn ei olygu i'r Deyrnas Unedig a Chymru.</p>
10.45	Sut mae pethau
	<i>Rhodri ap Owen, Positif</i>
	<i>Ystafell Powys</i>
	<p>Bu'n gyfnod o gythryblus a newid mawr ym mhob plaid. Bydd Rhodri yn rhoi ei farn ar y tirlun gwleidyddol presennol ar gyfer Cymru a'r Deyrnas Unedig, gan edrych ar 6 mis cyntaf Prif Weinidog Cymru yn ei</p>

swydd a beth sydd ar y gorwel ar gyfer Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

11.15 am

Lluniaeth a Rhwydweithio

11.45 am

Gweithdai

Prisiadau a Phwysau Cynyddol ar Orsymiau

Nigel Williams, Cyfarwydd, Savills

Bydd Nigel yn esbonio'r sefyllfa bresennol ar brisiadau a sut y gall setliadau rhent niweidiol effeithio ar orsymiau. Bydd hefyd yn trafod pwysigrwydd cynnal gorsymiau ar gyfer benthyca i adeiladu cartrefi newydd.

11.45 am

Gweithdai

Rheoli Trysorlys a Chyllid

Andrew Stirling, Banc Lloyds

Bydd y sesiwn yn codi cwr y llen ar gyllid yn y sector tai yng Nghymru, beth yw'r tueddiadau allweddol a beth yw'r rhagolygon ar reoli trysorlys a chyllid ar gyfer y sector.

11.45 am

Gweithdai

Tirlun Pensiynau

Stuart Price, Quantum Advisory a Gary Bradley, Ymddiriedolaeth Pensiynau

Bydd Gary yn sôn am brisiad diweddar y Cynllun Pensiwn Tai Cymdeithasol (SHPS) newidiadau i ddyraniad cyfraniadau diffyg a'r newyddion diweddaraf ar gyllid y Cynllun. Bydd Stuart yn rhannu ei brofiad o sut yr ymatebodd y sector tai yng Nghymru i ganlyniadau'r prisiad SHPS a'r hyn a wnaethant fel canlyniad. Yn ychwanegol gyda phrasiadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) yn mynd rhagddynt, bydd Stuart yn rhoi ei farn ar y canlyniadau tebygol a beth yw'r goblygiadau ar gyfer cymdeithasau tai sy'n cymryd rhan yn yr LGPS.

11.45 am	<u>Gweithdy</u> Gwrth-lwgrwobrwyo a Llygredd
	<i>Andrew Chainey, Tantrwm a John Walsh, C-S-I.online</i>
	<p>Mae gan unrhyw un sydd â rôl o fewn y cwmni lle maent yn dylanwadu ar ddyfarnu contractau, gyfrifoldeb cyllidol ar unrhyw lefel. Yn gryno, unrhyw un a allai fod yn agored i lwgrwobrwyo a llygredd neu y gallai'r ddeddfwriaeth effeithio arnynt.</p> <p>Bydd y gweithdy yn rhoi sylw i'r mesurau rheoli mae cymdeithasau tai angen eu rhoi ar waith i liniaru colled, sut i adnabod ffactor risg llwgrwobrwyo a llygredd a gwneud penderfyniadau moesegol gwybodus gan ddiogelu integriti ac enw da y sefydliad.</p>
11.45am	<u>Gweithdai</u>
	101 Cyllid - Tu Mewn i'r Blwch Du
	<i>Joseph Carr, Altair</i>
	Mae Joseph yn rhoi cyflwyniad i Gyllid a Risg Cymdeithasau Tai.
	<u>Gweithdai</u>
	101 Trethiant - Cyflwyniad
	<i>Deloitte</i>
	Bydd y sesiwn yma yn rhoi cyflwyniad i gynrychiolwyr i fyd Trethiant a pha eitemau y dylent fod yn gwybod amdanynt mewn tai cymdeithasol, y ffactorau presennol sy'n effeithio ar y sector a pha ystyriaethau y dylai'r sector fod yn gwybod amdanynt ar gyfer y dyfodol.
12.45 pm	Cinio, Gweld yr Arddangosfa ac Ystafell Rhwydweithio - Y Ddawnsfa
1.45pm	Ailfeddwl am Dai mewn byd ansicr
	<i>Lee Sugden, Prif Weithredydd, Salix Homes</i> <i>Sharon Jones, C.I.C. Creating Enterprise</i>

	<i>Ystafell Powys</i>
	Mae'r byd wedi newid, ond nid felly y maes tai. O leiaf ddim digon. Tra bo'r sector tai yn ymdrechu i fynd i'r afael gyda'r chwyldro digidol, gyda'r holl sefydliadau ar daith i 'ailfeddwl am dai' a dod yn gymdeithas tai y dyfodol. Bydd eu panel yn rhannu eu profiadau ar sut mae eu sefydliadau yn esblygu ffyrdd o weithio er mwyn wynebu'r heriau hyn yn uniongyrchol a sut mae angen i'r sector newid i ddiwallu anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid mewn byd modern a digidol.

2.45 pm	<u>Gweithdai</u> Diweddariad ar Reoleiddio
	<i>Helen White, Cadeirydd Bwrdd Rheoleiddiol Cymru</i>
	Ym mis Mai 2019 cyhoeddodd Bwrdd Rheoleiddiol Cymru eu Hadroddiad Blynyddol i'r Gweinidog yn cynnwys perfformiad ôl-weithredol y sector a hefyd rai o'r heriau'r dyfodol a'r goblygiadau posibl i reoleiddio. Bydd Helen yn siarad am yr heriau hyn ac yn rhannu ei sylwadau am sut y gall y sector ymgysylltu'n gadarnhaol gyda'r gofynion Fframwaith Rheoleiddiol yng Nghymru. Bydd Helen yn sôn am arfer da a'r gwersi a ddysgwyd o sectorau eraill a reoleiddir yng Nghymru ac ymhellach i ffwrdd.

2.45 pm	Gwersi Grenfell
	<i>Marc Bates, JLT a Chris Tarrier, Thistle Insurance</i>
	Roedd digwyddiadau trychinebus Tŵr Grenfell yn ysgytwad difrifol i'r y sectorau Tai ac Yswiriant. Bydd Marc a Chris yn trafod yr effaith ar y diwydiant yswiriant a sut yr effeithiodd hyn ar gymdeithasau tai a thenantiaid.

2.45 pm	<u>Gweithdai</u> Diwygio Llesiant - Effaith Credyd Cynhwysol
	Bydd y sesiwn yn rhoi sylw i'r heriau sy'n wynebu landlordiaid ar hyn o bryd ac yn dadansoddi effaith ôl-ddyledion rhent ar gymdeithasau.

2.45 pm	<u>Gweithdai</u>
	101 Pensiynau -
	<i>Gary Bradly, Ymddiriedolaeth Pensiynau</i>
	Aiff Gary â ni ar daith gyflym o amgylch y ddau brif fath o fuddion pensiwn galwedigaethol, Budd Diffiniedig a Chyfraniad Diffiniedig, manteision ac anfanteision pob un o safbwynt cyflogwyr a hefyd aelodau

	<u>Gweithdai</u>
	Taith drwy Sicrwydd Ansawdd
	<i>Gordon Perry, Ark Consultancy</i>
	Bydd y sesiwn yma'n trafod rheoli risg ac yn rhoi dealltwriaeth well o gyfrifoldebau Bwrdd am bob agwedd o gydymffurfiaeth rheoleiddiol ym myd newydd tai, sy'n cynnwys mwy o risg ac uchelgais. Bydd y sesiwn mor berthnasol i staff sy'n adrodd i fyrddau ag i aelodau Bwrdd eu hunain.

3.45 pm	Lluniaeth a Rhwydweithio a noddwyd drwy garedigrwydd Hugh James Cyfreithwyr Ystafell - y Ddawnsfa
----------------	--

4.15 pm	Goroesi Ymyriad - Bod yn fwy o Forleidr
	<i>Sam Coniffer</i>
	<p>Nid dim ond torri'r rheolau a wnâi morladron, ond eu hailysgrifennu.</p> <p>Nid dim ond gwrthod cymdeithas wnaethon nhw, ond ei ailddyfeisio.</p> <p>Nid dim ond herio pethau fel yr oeddent wnaeth morladron, ond newid popeth. Roedd morladron yn wynebu sefydliad nad oedd ond yn meddwl amdano'i hyn, system wedi chwalu, ymyriad ar raddfa enfawr a dyfodol ansicr. Swnio'n gyfarwydd?</p> <p>Roedd morladron yn sefyll am DDRYGAU, DIBEN a GRYM. A gallwch chithau hefyd.</p>

	Bydd Sue yn eich llywio drwy'r moroedd tymhestlog ar sut y gall eich sefydliad oroesi ymyriad y gweithle a'r byd drwy fod yn fwy o forleidr.
--	--

5.00pm	Diwedd y Diwrnod Cyntaf
---------------	--------------------------------

7.30pm	Derbyniad Diodydd Cyn Cinio
---------------	------------------------------------

8.00pm	Cinio'r Gynhadledd a nodweddwyd drwy garedigrwydd Banc Lloyds
---------------	--

Dydd Gwener 12 Gorffennaf

9.00am	Cofrestru
9.15am	Datblygu gwytnwch ar gyfer swyddogaethau cyllid
	<i>Ian Rothwell a Paul Chudleigh, R W Learning</i>
	Wrth i gyflymder newid barhau i gynyddu, ni fu erioed fwy o angen gweithlu gwydn. Nid yw cyflawni ar eich gorau yn dibynnu ar un peth, mae'n gydbwysedd o gyflwr eich meddwl, yr amgylchedd y gweithredwch ynddynt, y sgiliau a'r mathau ymddygiad yr ydych yn eu dangos, bydd Ian a Paul yn rhoi'r fethodoleg a chyingor da i chi ganolbwyntio ar y meddwl, corff, y materion busnes a'r sgiliau sydd eu hangen i sicrhau canlyniadau rhagorol.
10.00pm	Yr Adolygiad o Dai Fforddiadwy - Y Camau Nesaf
	<i>Lynn Pamment, Cadeirydd Panel yr Adolygiad o Dai Fforddiadwy</i>
	Bydd yn amlinellu'r canfyddiadau allweddol o'r adolygiad a'i effaith ar y sector tai cymdeithasol yng Nghymru. Pa wersi a ddysgwyd o'r adolygiad a beth yw'r camau nesaf ar gyfer y sector.
10.45 am	Lluniaeth a Rhwydweithio a noddwyd drwy garedigrwydd Hugh James, Cyfreithiwr
11.15am	<u>Sesiwn Grŵp</u>
	Grantiau
	<i>Helga Warren, Llywodraeth Cymru</i>
	Bydd Helga'n rhannu'r sefyllfa bresennol yng nghyswllt grantiau ar gyfer y sector a beth fydd yr effaith ar y system grantiau yn dilyn yr adolygiad o dai fforddiadwy

neu

Sesiwn Grŵp

Fforddiadwyedd

Sioned Hughes, Altair

Bydd Sioned yn cyflwyno canfyddiadau adroddiad Altair a gomisiynwyd gan CHC ar y diffiniad o fforddiadwyedd a sut y gall sefydliadau addasu eu hymagwedd at fforddiadwyedd yng nghyd-destun gosod rhenti a chanfyddiadau'r Adolygiad o Dai Fforddiadwy.

12.00 pm

Risg - Bod yn Eofn

Ruth Murray Webster

@rmurraywebster

Ystafell - Powys

Mae pob busnes yn wynebu heriau ar sut i goleddu a chyfarch tueddiadau sy'n dod i'r amlwg. Nid yw'r sector Tai Cymdeithasol yn wahanol. Bydd Ruth yn dynodi'r tueddiadau sy'n dod i'r amlwg a'r materion a ddynodwyd yn adroddiad Gorwelion Tai ac yn amlinellu dull gweithredu i edrych ar y potensial i fanteisio ar gyfleoedd tra'n cyfrif risgiau yn gywir. Caiff hyn ei rannu fel ffordd ymarferol o drin yr ansicrwydd a achosir gan y dyfodol agos a phellach.

Yn y sesiwn gwahoddir cynrychiolwyr i ystyried:

- Yr hyn y gallai 'bod yn eofn' gyda rheoli risg ei olygu'n ymarferol - sut mae hyn yn cysylltu gydag awydd risg.
- Camau ymarferol y gallwch eu cymryd yn ôl yn y gweithle i sicrhau ei bod yn glir pa risgiau sy'n gyfleoedd i afael ynddynt a pha rai sy'n fygythiadau i gael eu hamddiffyn.

12.45pm

Casgliadau'r Gynhadledd

1.00pm

Cinio a Gadael